



# Cylchlythyr Cyngor Tref Llandeilo

## Mewn partneriaeth â Menter Bro Dinefwr

### Cysylltwch â'ch cyngorydd tref:

Y Cyngorydd Eifion Davies,  
Maer 2017-18  
eifiondavies1409@btinternet.com

Y Cyngorydd Edward Thomas,  
Dirprwy Faer 2017-18  
egthomas@sirgar.gov.uk

Y Cyngorydd Gordon Kilby  
gkilbymusic@aol.com

Y Cyngorydd Rebecca Butcher  
bexter\_26@live.co.uk

Y Cyngorydd Christoph Fischer  
christophffischer@googlemail.com

Y Cyngorydd Robert Jones  
rob.jones40@yahoo.com

Y Cyngorydd Dawn Wallace  
carmen1960@hotmail.co.uk

Y Cyngorydd Colin Jenkins  
jenkinscolin4@gmail.com

Y Cyngorydd Lesley Prosser  
lesleyprosser@aol.com

Y Cyngorydd Owen James  
owenjames715@gmail.com

Y Cyngorydd Christopher Parish  
chris.parish296@btinternet.com

Y Cyngorydd Geraint Price  
geraint.p@hotmail.co.uk



**Ar rhan Cyngor Tref Llandeilo, hoffwn eich croesawi i gylchlythyr cyntaf Cyngor y Dref!**

Dyma ddechrau ar berthynas agosach rhwng Cyngor y Dref a'i thrigolion. Bydd y cylchlythron hyn yn gyfle i'ch hysbysu am yr hyn y mae Cyngor y dref yn ei wneud, ac yn gyfle i chi gael rhoi eich barn ar faterion cyfredol y dref.

Fel rhywun sydd wedi byw yn Llandeilo at hyd fy oes, bu'n fraint cael eich cynrychioli chi fel Maer y dref eleni. Mae'n amser cyffrous a phwysig i'r dref, wrth i ni dargedu dau o asedau nodedig Llandeilo, sef Parc Penlan a Pharc Le Conquet, neu'r 'Rec', fel mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei adnabod. Cymeraf

y cyfle hwn i'ch hysbysu am y datblygiadau sy'n mynd rhagddynt yn y parciau, ac edrychaf ymlaen at gael clywed eich syniadau a'ch awgrymiadau.

Ar hyn o bryd, fodd bynnag, y mater mwyaf sy'n wynebi trigolion Llandeilo yw'r ffordd osgoi (Bypass). Mae yna broblemau parhaus o ran rheoli traffig, tagfeydd a lefelau uchel o lygredd. Cynhelir fforwm cyhoeddus yn y Neuadd Dinesig, Stryd Cilgant, Llandeilo, ar 13 Chwefror rhwng 14.00 a 19.00. Bydd hwn yn fforwm agored, ac yn gyfle i chi leisio eich barn yn ogystal â chodi eich materion eich hun. Ceisiwch fod yn bresennol os bydd hynny'n bosibl.

Eifion Davies, Maer y Dref



### Gŵyl Dewi Sant

Y llynedd, am y tro cyntaf, trefnodd Cyngor Tref Llandeilo wyl wythnos i ddathlu bywyd Dewi Sant. Yn dilyn llwyddiant yr wyl, mae'r Cyngor Tref wedi penderfynu cynnal y digwyddiad yn flynyddol, yn ac mae'n argoeli y bydd gŵyl eleni yn well fyth. Yr egwyddor allweddol sy'n sail i'r wyl yw ei bod at ddant pawb. I'r perwyl hwn, ni fydd y pris mynediad i'r holl ddigwyddiadau, ac eithrio'r 'Dawns a Chinio' ar y nos Wener, yn fwy na £5, a bydd mynediad am ddim i ddisgyblion ysgol.

Un o nodweddion yr wythnos fydd y ddarlith Gŵyl Ddewi agoriadol, a draddodir gan Dr Lyn Davies. Bydd hwn yn ddigwyddiad bynyddol, ac estynnir gwahoddiad i Gymry sy'n amlwg yn eu maes i gyflwyno'r ddarlith. Cynhelir yr wyl rhwng 25

Chwefror a 3 Mawrth, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r dyddiadau canlynol:

25 Chwefror - Gwasanaeth Aml-enwadol yng Nghapel Newydd gyda Bois y Castell

26 Chwefror - Noson yng nghwmni Clive Harpwood

27 Chwefror - Darlith gan Dr Lyn Davies

28 Chwefror - Cwis Chwaraeon

1 Mawrth - Cyngerdd yr ysgolion

2 Mawrth - Dawns a Chinio gyda Baldande

3 Mawrth - Band y Dref, cerddorion, a dawnswyr



**Hugh Williams Son & Co**  
Est. Cyfreithwyr / Solicitors 1937

81, Stryd Rhosmaen  
Llandeilo, Carmarthen  
SA19 6HD

Tel: 01558 823417  
Fax: 01558 823038  
llandeilo@hughwilliamsllaw.co.uk

## Trosgrwyddo Asedau Parciau Llandeilo

**Yn 2014, cynigodd Cyngor Sir Caerfyrddin drosgrwyddo parciau i'r cynghorau lleol oedd â diddordeb. Trafododd Cyngor Tref Llandeilo y posibilrwydd o ysgwyddo cyfrifoldeb am barciau Penlan a Le Conquet, a phenderfynwyd ffurfio is-grŵp Trosgrwyddo Asedau.**

### 2016

Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Llandeilo yw'r unig Gyngor Tref/Cymuned i wneud hyn. Anfonir 850 o lythron gan y cynghorwyr. Awgryma'r ymatebion fod 88% o'r cyhoedd o blaid y fenter.

Mae'r Cyngor yn pleidleisio o blaid y cynllun trosgrwyddo asedau, ond hefyd yn comisiynu archwiliad ac adroddiad an-nibynnol.

Cyflwynir adroddiad cynhwysfawr i'r Cyngor, sy'n cynnwys awgrymiadau ar gyfer cynnal a chadw'r parciau yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Unwaith eto,

mae'r Cyngor yn pleidleisio o blaid symud ymlaen â'r broses drosgrwyddo.

### 2017

Llofnodir prydles ar Barc Penlan ym mis Ebrill 2017. Mae'r prydles ar Barc Le Conquet yn aros am gymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau.

Ym mis Rhagfyr, ymgynghorir â rhieni ynglŷn ag offer y maes chwarae. Gan ddefnyddio arian grant i ariannu'r offer, mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu neilltuo arian ar gyfer goleuadau a chamerau cylch cyfyng.

### 2018

Mae'r Cyngor yn llwyddo i gael arian grant i ddarparu ardal gemau aml-ddefnydd ym Mharc Le Conquet. Bydd y broses o drosgrwyddo'r ddau barc yn cael ei chwblhau yn fuan. Bydd trigolion Llandeilo eisoes wedi sylwi ar welliant o ran cynnal a chadw'r parciau, ac o ran eu golwg.

## Menter Bro Dinefwr

### Menter Iaith a Datblygu Cymunedol

Yn cydweithio â Chyngor Tref Llandeilo er lles y gymuned leol, ac i sicrhau gwasanaeth dwyieithog i drigolion yr ardal.

(01558) 825336

post@menterbrodinefwr.cymru

## Cyflwyno Cynghorydd Tref ...

Mae Cyngor Tref Llandeilo yn cynnwys deuddeg o aelodau o'r gymuned leol sydd wedi cael eu hethol i wasanaethu am gyfnod o bum mlynedd.



Owen James

### Helo Owen, ers pryd yr ydych chi wedi bod yn aelod o Gyngor Tref Llandeilo?

Rwyf wedi gwasanaethu ers bron dwy flynedd, ac rwy'n barod i helpu mewn unrhyw ffordd posibl.

### Ydych chi'n rhan o unrhyw sefydliad lleol?

Ydw, Clwb Pêl-droed Llandeilo; fi yw'r capten eleni, sy'n dipyn o anrhydedd. Ac, wrth gwrs, Cyngor y Dref.

### Beth yw eich atgof cyntaf o fyw yn Llandeilo?

Chwarae gemau bwrdd yn fy nghewyn gyda theulu a ffrindiau tra oeddwn yn byw uwchben Caffi Gwili! Cyn oes yr iphones a'r ipads!

### Dywedwch ffaith ddiddorol amdanoch eich hun!

Er nad ydym yn efeilliaid, rydw i a'm brawd yr un oedran am chwech diwrnod o'r flwyddyn.

### Disgrifiwch eich hun mewn tri gair

Gweithgar, uchelgeisiol, hael.

### Beth ysbrydolodd chi i fod yn gynghorydd?

Ymunais â'r cyngor i gynnig dull ifanc, gweithgar a ffres o weithio. Ac wrth i dechnoleg fodern chwarae rhan fwy amlwg yn y gymdeithas, mae'n bleser helpu a chynnig cyngor bob hyn a hyn.

## Unrhyw awgrymiadau?

Leisiwch eich barn am y cylchlythyr hwn. Oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut i wella'r diwyg, neu unrhyw syniad o ran beth y dylai'r cylchlythyr ei gynnwys? Neu efallai yr hoffech gynnig enw i'r cyhoeddiad hwn.

Anfonwch unrhyw sylwadau neu syniadau at Roger Phillips, clerwr y dref: [clerkllandeilo@yahoo.co.uk](mailto:clerkllandeilo@yahoo.co.uk)

A wyddech chi fod cyfarfodydd y cyngor gan amlaf yn agored i'r cyhoedd? Mae manylion llawn i'w gweld ar wefan Cyngor Tref Llandeilo Fawr: <http://www.llandeilo.gov.uk>



### Rhoddion

**Rydym yn ymrwymedig i annog grwpiau cymunedol lleol. Mae croeso i unrhyw grŵp cymunedol neu sefydliad elusennol wneud cais am gyllid ar gyfer prosiect a fydd o fudd i bobl sy'n byw yn Llandeilo.**

## Newyddion Cynghorwyr Sir gan Edward Thomas

### Er fy mod yn falch o fod yn aelod o Gyngor Tref Llandeilo Fawr, rwyf yr un mor falch o fod wedi cynrychioli fy nhref magwrol fel Cynghorydd Sir oddi ar 2012.

Rôl cynghorydd sir yw sicrhau bod pryderon y trigolion a chynrychiolwyr y cynghorau tref a chymuned yn cael eu clywed gan yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru. Rwy'n delio ag amryw o faterion, gan gynnwys tai, baw cŵn, casglu sbwriel a materion sy'n ymwneud â thraffig.

Yn sgil cyni a phryderon ynghylch Brexit, a chyda llai o arian yn dod o du San Steffan i Gymru, ac felly, yn ei dro, i Sir Gaerfyrddin, mae'n mynd yn fwyfwy anodd i awdurdodau lleol gynnal a chadw

gwasanaethau. Byddaf yn dal ati i sicrhau na chaiff yr ardal hon ei hesgeuluso.

Gyda Llywodraeth Cymru yn cynnal yr ymgynghoriad hirddisgwyliedig ynghylch ffordd osgoi Llandeilo, mae 2018 yn addo bod yn flwyddyn gyffrous iawn i'r dref. Mae Llandeilo wedi gorffod dioddef lefelau uchel o lygredd a thagfeydd traffig ar adegau brig ers tro byd. Yn ogystal, rydym yn gobeithio clywed a fydd cyllid ar gael ar gyfer dau brosiect, sef adnewyddu ac adfywio adeiladau eiconig Neuadd yr Hen Farchnad a Neuadd y Sir.

Rwyf hefyd yn gwasgu am benderfyniad ynglŷn â safle Tre-gib, er mwyn i'n hysgolion cynradd lleol gael eu moderneiddio. Dylid hefyd ystyried rhoi estyniad i safle Beechwood, er mwyn creu swyddi newydd angenrheidiol yn ein tref.